

ATODIAD A

Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Sir y Fflint – Wedi'i Ddiweddarau (Ac Eithrio'r Gwasanaeth Bwyd Anifeiliaid*)

Dyddiad yr Archwiliad: 28 Hydref – 1 Tachwedd 2013

Ymweliad Dilynol: 26 Tachwedd 2015

(*) Nid yw camau a gododd o'r archwiliad mewn perthynas â bwydydd anifeiliaid wedi'u cynnwys. Cyflwynwyd model bwyd anifeiliaid rhanbarthol newydd yng Nghymru o fis Ebrill 2015.

Canllaw Statws

	Wedi'i gwblhau
	Cynnydd da
	Cynnydd cyfyngedig
	Dim camau wedi'u cymryd

MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	STATWS	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA	CAMAU SY'N WEDDILL
3.18(i) Sicrhau y caiff Cynlluniau Gwasanaeth Bwyd y dyfodol eu datblygu yn unol â Chanllawiau Cynllunio'r Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Dylai gwybodaeth fwy cynhwysfawr ar wasanaeth yr awdurdod gael ei darparu ynghyd â dadansoddiad cadarn o'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau bwyd yn erbyn y rhai sydd ar gael. [Y Safon – 3.1]		<p><u>Hylendid Bwyd / Safonau Bwyd</u> Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â:</p> <p>a) Peidio â chynnwys nifer y safleoedd cymeradwy yn y Sir.</p> <p>b) Peidio â chynnwys y gofynion o ran adnoddau i ddarparu'r Gwasanaeth Bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd yn ei gyfanrwydd.</p> <p>c) Peidio â chynnwys amcangyfrifiad o'r adnoddau sy'n ofynnol i ailymweld â phob safle â sgôr 0, 1 a 2 ac i arolygu busnesau newydd.</p> <p>Bydd cynlluniau gwasanaeth yn y dyfodol yn sicrhau y cynhwysir pob un</p>	<p>Mae'r rhan fwyaf o'r gwelliannau arfaethedig y cytunwyd arnynt wedi'u rhoi ar waith yng Nghynllun Gwasanaeth 2015/16.</p> <p>Awdurdod wedi cydnabod bod angen gwelliannau pellach o ran cynllunio adnoddau. Disgwyl iddynt gael eu drafftio yng Nghynllun Gwasanaeth 2016/17 cyn i'r Cabinet gytuno ar y ddogfen.</p>	<p>Sicrhau bod yr adnoddau gofynnol a nodir yn y cynllun gwasanaeth yn gywir ar gyfer arolygiadau a gweithgarwch cysylltiedig a hefyd yn cynnwys cyngor o ran busnesau, samplu a gwaith hyrwyddo.</p> <p>Dyddiad cwblhau newydd: 27/05/16</p>

MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	STATWS	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA	CAMAU SY'N WEDDILL
		o'r uchod, a bydd yn cynnwys dadansoddiad o'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn darparu'r gwasanaeth bwyd yn gyflawn yn erbyn y rheiny sydd ar gael.		
5.12(i) Adolygu a diweddarau holl awdurdodiadau swyddogion er mwyn sicrhau eu bod wedi'u hawdurdodi'n briodol o dan deddfwriaeth berthnasol gyfredol yn unol â'u cymwysterau, eu hyfforddiant, eu profiad a'r Cod Ymarfer perthnasol. [Y Safon – 5.3]		<u>Hylendid Bwyd / Safonau Bwyd</u> Caiff pob awdurdodiad ei adolygu a'i ddiweddarau lle bo angen. Cyflawnir hyn yn unol â newidiadau mewn deddfwriaeth.	Mae hyn eisoes wedi ei roi ar waith. Llauer o awdurdodiadau wedi'u diweddarau.	Sicrhau y caiff pob awdurdodiad ei ddiweddarau a rhoi diwygiadau pellach ar waith i fynd i'r afael â deddfwriaeth fwy diweddar. Dyddiad cwblhau newydd: 27/05/16
5.12(ii) Cynnal cofnodion o gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad perthnasol swyddogion awdurdodedig a staff cymorth priodol yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol. [Y Safon – 5.5]		<u>Hylendid Bwyd / Safonau Bwyd</u> Caiff cofnodion hyfforddi a gedwir eisoes eu hategu gan gopïau o dystysgrifau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a gedwir yn electronig mewn gyriant canolog a rennir.	Gofynnwyd i bob swyddog ddarparu copïau o'u cynlluniau DPP. Ar gyfer cyrsiau yn y dyfodol, mae cyfarwyddyd uniongyrchol yn nodi y dylid sganio pob DPP ar y gyriant canolog yn ogystal â'i nodi yn y gofrestr.	Wedi'i gwblhau
6.11(i) Adolygu, diwygio a gweithredu'r weithdrefn a ddogfennir ar gyfer cynnal a chadw a graddnodi. [Y Safon –		<u>Hylendid Bwyd</u> Mae angen diwygio'r weithdrefn ar raddnodi thermomedrau er mwyn ymdrin â'r sylw nad oedd y weithdrefn	Mae'r weithdrefn wedi ei hadolygu a'i diwygio i	Wedi'i gwblhau

MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	STATWS	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA	CAMAU SY'N WEDDILL
6.2]		ysgrifenedig yn sôn yn benodol am y goddefiant ar gyfer graddnodi'r profiedyddion thermomedr. Er i hyn gael ei nodi ar y ffurflenni cofnodi ni chafodd ei gynnwys yn y weithdrefn ysgrifenedig.	gynnwys cyfeiriad penodol at y goddefiant o 0.5°C yn y weithdrefn ysgrifenedig.	
<u>Hylendid Bwyd</u> 7.19(i) Sicrhau bod pob ymyriad/arolygiad hylendid ar safleoedd bwyd yn cael ei gynnal ar yr adegau sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]		Mae hyn yn ymwneud â'r argymhelliad y dylid cynnal pob arolygiad o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad disgwylidig. Er bod Cyngor Sir y Fflint wedi cynnal pob un o'r arolygiadau Risg Uchel disgwylidig bob blwyddyn ariannol, nid yw rhai arolygiadau Risg Uchel wedi eu cynnal o fewn y 28 diwrnod disgwylidig, er iddynt gael eu cynnal yn ôl y disgwyl o fewn y rhaglen flynyddol. Gwelliannau Arfaethedig: Mae disgwyl i bob arolygiad Risg Uchel eleni gael ei gwblhau o fewn y 28 diwrnod disgwylidig. Caiff hyn ei fonitro gan Arweinydd y Tîm mewn cyfarfodydd unigol misol. Dylai unrhyw wyro oddi wrth y rheol 28 diwrnod hon gael ei ddogfennu ar y gronfa ddata electronig.	Mae'r awdurdod wedi gofyn i bob swyddog sicrhau y caiff pob ymyriad ei gynnal yn nhrefn y dyddiadau a bod gwelliannau wedi'u rhoi ar waith yn y rhestrau ymyriadau i alluogi swyddogion gorfodi i flaenoriaethau eu llwyth gwaith. Gwelliant yng nghyfradd arolygu pob categori risg ar yr amllder cywir.	Sicrhau arolygiadau hylendid bwyd mwy amserol i fodloni'r gofyniad 28 diwrnod. Dyddiad cwblhau newydd: 27/05/16
7.19(ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau hylendid ar safleoedd risg is yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a		a) Dylai pob arolygiad hwyr gradd D a safleoedd gradd D y mae disgwyl iddynt gael eu harolygu eleni gael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae hyn yn cyfateb i 175 o arolygiadau.	Mae Cyngor Sir y Fflint wedi gweithredu Strategaeth Gorfodi Amgen ers yr archwiliad.	Wedi'i gwblhau

MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	STATWS	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA	CAMAU SY'N WEDDILL
gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 7.2]		<p>b) Dylid cynnal arolygiadau gradd D y mae disgwyl iddynt gael eu cynnal eleni o fewn y 28 diwrnod disgwylieidig.</p> <p>c) Dylai Strategaeth Gorfodi Amgen (AES) gael ei llunio a'i gweithredu er mwyn ymdrin â phob safle gradd E lle nad oes arolygiad wedi ei gynnal eto o fewn cyfnod o ddwy flynedd.</p>	Gwelliannau i brosesau cymeradwyo, sgorio risg ac ail-ymweliadau.	
7.19(iii) Sicrhau bod arsylwadau a wneir a/neu ddata a gesglir yn ystod arolygiad yn cael eu cofnodi mewn modd amserol. [Y Safon – 7.5]		<p>Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â barn archwilwyr nad oedd digon o wybodaeth yn cael ei darparu gan swyddogion mewn rhai achosion ar yr aide memoir a ddefnyddir i helpu swyddogion yn ystod eu harolygiadau.</p> <p>Gwelliannau Arfaethedig: Dylai swyddogion gwblhau'r aide memoir yn ddigon manwl fel y gall swyddogion eraill wneud yr asesiad angenrheidiol i lywio camau gweithredu graddedig, yn seiliedig ar risg.</p>	<p>Mae swyddogion wedi cael cyfarwyddyd i gwblhau cymaint o'r ffurflen arolygu (<i>aide memoire</i>) ag sy'n ofynnol, er mwyn sicrhau y gall y swyddog arolygu nesaf bennu lefel yr arferion ar y pryd ac asesu a oedd yr arferion hynny ac ati yn ddigonol.</p> <p>Roedd y weithdrefn Monitro Mewnol eisoes yn cynnwys asesiad o'r ffurflen hon yn cael ei llenwi yn gynhwysfawr, cyn archwiliad yr ASB. Rhai gwelliannau wedi'u rhoi ar waith.</p>	<p>Sicrhau gwelliannau pellach i gofnodi arsylwadau swyddogion yn ystod ymyriadau hylendid bwyd, gan gynnwys asesiadau o HACCP, croeshalogi a chydymffurfiaeth hyfforddi a gwirio marciau ID ar gyfer bwyd sy'n dod i mewn.</p> <p>Dyddiad cwblhau newydd: 27/05/16</p>
<u>Safonau Bwyd</u>		Mae hyn yn ymwneud â'r argymhelliad	Mae'r awdurdod wedi	Sicrhau y caiff ymyriadau

MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	STATWS	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA	CAMAU SY'N WEDDILL
7.34(i) Sicrhau y cynhelir ymyriadau safonau bwyd ar adegau rheolaidd nad ydynt yn llai na'r hyn a bennir o dan y cynllun sgorio ymyrryd a nodir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd ac asesu cydymffurfiaeth sefydliadau a systemau â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol. [Y Safon – 7.1 a 7.3]		<p>y dylid cynnal pob arolygiad o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad disgwylidig. Er bod Cyngor Sir y Fflint wedi cynnal pob un o'r arolygiadau Risg Uchel disgwylidig bob blwyddyn ariannol, nid yw rhai arolygiadau Risg Uchel wedi eu cynnal o fewn y 28 diwrnod disgwylidig.</p> <p><u>Safleoedd Risg Isel a Chanolig</u> Mae ôl-groniad o safleoedd lle mae'r arolygiad safonau bwyd yn hwyr.</p>	<p>gofyn i bob swyddog sicrhau y caiff pob ymyriad ei gynnal yn nhrefn y dyddiadau a bod gwelliannau wedi'u rhoi ar waith yn y rhestrau ymyriadau i alluogi swyddogion gorfodi i flaenoriaethau eu llwyth gwaith.</p> <p>Roedd Arweinydd y Tîm eisoes wedi nodi bod hwn yn broblem yng Nghynllun Gwasanaethu 2013/14 cyn yr archwiliad ac wedi llunio Cynllun Gweithredu.</p> <p>Mae pob Swyddog Iechyd yr Amgylchedd wedi cael arolygiadau Safonau Bwyd i'w cynnal ar yr un pryd ag Arolygiadau Hylendid Bwyd, a hynny o fis Mawrth 2014.</p> <p>Ers yr archwiliad, mae dau Swyddog Diogelwch Bwyd yn cwblhau'r modiwl Safonau Bwyd i'w galluogi i fod yn gymwys i wneud</p>	<p>safonau bwyd eu cynnal ar y gyfradd ofynnol.</p> <p>Dyddiad cwblhau gwreiddiol: mis Mawrth 2017.</p>

MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	STATWS	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA	CAMAU SY'N WEDDILL
			<p>gwaith Safonau Bwyd.</p> <p>Mae'r tîm wedi'i ddwyn ynghyd mewn un swyddfa. Mae hyn yn hwyluso materion cyfathrebu, monitro'r gwaith sy'n cael ei gynnal ac alinio diwylliant a phrosesau gwaith.</p>	
<p>7.34(ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau a chofrestru sefydliadau yn unol â'r ddeddfwriaeth, y Codau Ymarfer, a'r canllawiau canolog perthnasol. [Y Safon – 7.2]</p>		<p><u>Safonau Bwyd</u> Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud ag arolygiadau Safonau Bwyd a gynhaliwyd lle rhoddwyd rhybudd ond na chafodd y rheswm dros roi rhybudd am yr ymweliad (yn hytrach nag ymweliad dirybudd) ei gofnodi.</p>	<p>Dylai arolygiadau fod yn rhai dirybudd, oni bai fod rheswm dilys, cofnodedig am roi rhybudd am yr ymweliad.</p> <p>Gwelliannau o ran codio ymweliadau.</p>	<p>Sicrhau gwelliannau pellach mewn ymyriadau safonau bwyd a chofnodion ymyriadau i gynnwys gwybodaeth am roi rhybudd am ymweliad a sicrhau dulliau sgorio risg cyson.</p> <p>Dyddiad cwblhau newydd: 27/05/16</p>
<p>7.34(iii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn ailymweld gofnodedig ar gyfer safonau bwyd. [Y Safon – 7.4]</p>		<p>Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â'r ffaith nad yw'r Weithdrefn Ailymweld yn sôn am ail-ymweliadau o ran Safonau Bwyd.</p> <p>Gwelliant Arfaethedig: Ysgrifennu Gweithdrefn / Polisi Ailymweld ar gyfer Safonau Bwyd.</p>	<p>Wedi ysgrifennu gweithdrefn/polisi ailymweld ar gyfer Safonau Bwyd.</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	STATWS	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA	CAMAU SY'N WEDDILL
7.34(iv) Cofnodi arsylwadau a wnaed a/neu ddata a gafwyd yn ystod arolygiad/ymyriad mewn modd amserol er mwyn sicrhau nad yw gwybodaeth berthnasol yn mynd ar goll. [Y Safon – 7.5]		Bydd ffurflen arolygu (<i>aide memoir</i>) yn cael ei chynhyrchu ar gyfer arolygiadau Safonau Bwyd a ddefnyddir gan bob swyddog sy'n cynnal arolygiadau Safonau Bwyd.	Mae Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd sy'n cynnal gwaith Safonau Bwyd wedi bod yn cofnodi canfyddiadau ar eu ffurflenni arolygu yn yr adran Safonau Bwyd berthnasol. Ni wnaed hyn gan y Swyddog Safonau Masnach na'r Swyddog Safonau Masnach Gweithredol. Mae ffurflen ddrafft newydd gael ei llunio a'i hanfon at y tîm i geisio sylwadau.	Wedi'i gwblhau
8.12(ii) Ymchwilio i bob cwyn a dderbynnir yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog a'i bolisi a'i weithdrefnau ei hun. [Y Safon – 8.2]		O ystyried barn yr archwilwyr nad oedd y weithdrefn o ran cwynion ar gyfer Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd wedi ei dilyn ym mhob achos, bydd gofyn diwygio'r weithdrefn hon fel y gellir gwroddi wrthi mewn amgylchiadau lle nad yw'n briodol ymchwilio i gŵyn. Bydd polisi clir yn nodi pryd na ddylid ymchwilio i gŵyn yn cael ei ddatgan.	Mae'r weithdrefn wedi ei diwygio i gynnwys cyfeiriad at allu swyddog ymchwilio i wyro oddi wrth y weithdrefn cyhyd ag y bo'n cofnodi'r rheswm dros y gwyriad hwn ar y ffeil cwynion a gellir cyfiawnhau'r gwyriad hwn ar sail iechyd y cyhoedd. Rhai gwelliannau mewn ymchwiliadau i gwynion.	Sicrhau y caiff cwynion am hylendid a safonau bwyd eu prosesu heb unrhyw oedi sylweddol. Dyddiad cwblhau newydd: 27/05/16
12.12(ii) Adolygu, diweddarau lle bo angen, cynnal a		<u>Bwyd</u> Caiff y Weithdrefn Samplu Hylendid	Mae'r Weithdrefn Samplu Hylendid Bwyd yn cael ei	Sicrhau y caiff camau dilynol priodol eu cymryd i

MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	STATWS	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA	CAMAU SY'N WEDDILL
gweithredu'r gweithdrefnau samplu cofnodedig mewn perthynas â chaffael a diogelu samplau (bwyd), yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau canolog. [Y Safon – 12.5]		<p>Bwyd ei diwygio i gwmpasu cyfarwyddiadau penodol ar storio samplau bwyd yn dilyn y broses samplu. Roedd hyn eisoes yn ei lle ar adeg yr archwilio ar gyfer y Weithdrefn Samplu Hylendid Bwyd.</p> <p>Mae'r Polisi Samplu Bwyd eisoes yn nodi'r wybodaeth am gaffael samplau.</p>	<p>diwygio ar hyn o bryd i gynnwys y cam diogelu ychwanegol hwn.</p> <p>Gweithdrefnau bwyd wedi'u diwygio.</p>	<p>fynd i'r afael â samplau bwyd anfoddfaol.</p> <p>Dyddiad cwblhau newydd: 27/05/16.</p>
14.8(i) Sicrhau bod y weithdrefn digwyddiadau porthiant yn cynnwys trefniadau cysylltu y tu allan i oriau swyddfa a chanllawiau i swyddogion ar ymateb i rybuddion am fwyd anifeiliaid a gyhoeddir gan yr ASB. [Y Safon – 14.1]		Y weithdrefn i'w hadolygu yn unol â sylwadau'r ASB. Nid oes unrhyw drefniant y tu allan i oriau ffurfiol ar waith. Fodd bynnag, caiff manylion am y trefniadau y tu allan i oriau cyfredol (yn ôl y digwyddiadau iechyd anifeiliaid/clefyd anifeiliaid y mae'r tîm Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn ymdrin â hwy) drwy 'Call-Connect' eu rhannu â'r ASB.	Argymhelliad wedi'i roi ar waith mewn perthynas â Diogelwch Bwyd.	Wedi'i gwblhau
15.14(i) Sicrhau y caiff camau gorfodi cyfraith hylendid bwyd eu cymryd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, y canllawiau canolog a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ei hun. [Y Safon – 15.2]		<p>a) Y tîm i fynychu'r hyfforddiant ar Sanctsiynau Gorfodi ym mis Mai 2014.</p> <p>b) Dylai esboniadau gael eu cofnodi ar ffeil y safle bob tro os gwyrir oddi wrth y weithdrefn.</p>	Mae adolygiad wedi ei gynnal o'r pwyntiau manwl a godwyd gan archwiliad yr ASB ac mae mesurau unioni wedi eu rhoi ar waith lle bo angen.	<p>Sicrhau mai Hysbysiad Gwella Hylendid yw'r cam gweithredu priodol ac y caiff cydymffurfiaeth ei gadarnhau ym mhob achos.</p> <p>Sicrhau y caiff Hysbysiadau Camau Unioni eu rhoi i'r gweithredwr busnes bwyd</p>

MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	STATWS	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA	CAMAU SY'N WEDDILL
15.14(ii) Sicrhau y gwneir pob penderfyniad gorfodi yn dilyn ystyriaeth o bolisi gorfodi'r awdurdod ac y cofnodir y rhesymau dros wyro oddi wrth y polisi. [Y Safon – 15.4]		Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â'r ffaith nad oes esboniad amlwg pam nad yw gweithredwr busnes bwyd wedi ei erlyn yn lle cyflwyno Hysbysiad Gwella Hylendid iddo.	Mae'r ffurflen arolygu eisoes wedi ei diwygio cyn yr archwiliad i gynnwys adran ar gamau gorfodi a rhesymeg.	cywir ym mhob achos. Sicrhau y caiff penderfyniadau ar gamau gorfodi eu pasio i swyddog uwch yn unol â'r polisi gorfodi neu nodi rhesymau dros fynd yn groes i'r polisi.
<u>Hylendid Bwyd</u> 16.7 (i) Cofnodi, gyda rhesymau dros wyro oddi wrth weithdrefnau sefydledig. [Y Safon – 16.1]		Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud ag achosion lle caiff adroddiadau archwilio eu hanfon ar ôl 14 diwrnod at y gweithredwr busnes bwyd ond nad oes esboniad am yr oedi cyn eu hanfon yn cael ei gofnodi ar ffeil. Yn y dyfodol caiff unrhyw achosion o wyro o ran adroddiadau a gaiff eu hanfon yn ddiweddarach eu cofnodi ar ffeil.	Mae Arweinydd y Tîm eisoes wedi cyflwyno system ar gyfer nodi pryd y caiff adroddiadau eu hanfon er mwyn sicrhau bod adroddiadau'n cael eu hanfon o fewn 14 diwrnod er mwyn cydymffurfio â'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. Caiff unrhyw achos o wyro o ran anfon adroddiadau ei gofnodi ar y gronfa ddata.	Wedi'i gwblhau
<u>Safonau Bwyd</u> 16.15 (i) Cadw cofnodion cyfredol a chywir ar ffurf adferadwy ar bob sefydliad bwyd yn ei ardal yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog. Bydd y cofnodion hyn		Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â: a) Nid yw ffeiliau safleoedd papur ar gael ar gyfer pob safle mewn perthynas â Safonau Bwyd. b) Nid yw cofnodion y gronfa ddata yn gynhwysfawr.	Mae pob aelod o'r tîm bellach yn yr un swyddfa. O ganlyniad, mae'r broses o uno ffeiliau'r safleoedd wedi dechrau. Roedd gan yr adran Diogelwch Bwyd ffeil ar gyfer pob safle eisoes ac felly mae	Sicrhau bod adroddiadau/cofnodion safonau bwyd yn gwahaniaethu'n glir rhwng achosion o ddiffyg cydymffurfio ac argymhellion ac yn nodi'r ddeddfwriaeth yn glir.

MYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	STATWS	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	Y CAMAU A GYMERWYD HYD YMA	CAMAU SY'N WEDDILL
<p>yn cynnwys adroddiadau ar bob ymyriad/arolygiad, penderfynu ar gydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wneir gan y swyddog awdurdodedig, manylion y camau a gymerwyd lle nodwyd achos o fethu â chydymffurfio, manylion unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd a gwybodaeth cofrestru bwyd berthnasol. [Y Safon – 16.1]</p>		<p>c) Nid yw ffurflenni adroddiadau arolygu yn rhoi dadansoddiad o'r achosion cyfreithiol o fethu â chydymffurfio a'r hyn a oedd yn argymhelliad yn unig.</p> <p>d) Nid oedd gan y ffurflen adroddiad arolygu'r holl wybodaeth arni yr oedd disgwyl iddi ei chael.</p> <p>Gwelliannau:</p> <p>a) Uno ffeiliau safleoedd rhwng Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd.</p> <p>b) Dylai cofnodion cronfa ddata fod yn gynhwysfawr drwy sganio pob dogfen o fis Chwefror 2014.</p> <p>c) Darparu gwahaniaeth clir rhwng achosion cyfreithiol o fethu â chydymffurfio ac argymhelliad.</p> <p>d) Llunio ffurflen adroddiad arolygu newydd ar gyfer Safonau Bwyd a chreu llythyr templed i'w ddefnyddio, yn debyg i dempledi Hylendid Bwyd.</p>	<p>gwybodaeth am Safonau Bwyd yn cael ei rhoi ar yr un ffeiliau. Mae pob dogfen yn cael ei sganio ar y gronfa ddata fel rhan o'r arferion gwaith Symudol ac Ystwyth.</p> <p>Cyn yr archwiliad, roedd cyfarwyddyd cofnodedig wedi ei roi er mwyn sicrhau bod gwahaniaeth clir rhwng achosion cyfreithiol o fethu â chydymffurfio ac argymhelliad yn unig. Mae hyn yn cael ei fonitro gan Arweinydd y Tîm hefyd.</p> <p>Gofynnwyd am ddyfynbrisiau ar gyfer y newidiadau sydd i'w gwneud i'r Ffurflen Arolygu Safonau Bwyd.</p>	<p>Dyddiad cwblhau newydd 27/05/16</p>

Crynodeb (ac eithrio bwyd anifeiliaid)

Cyfanswm yr argymhellion	18
Wedi'u cwblhau	7
Cynnydd da	11
Cynnydd cyfyngedig	0
Dim camau wedi'u cymryd	0
Nifer yr argymhellion sy'n weddill	11